Mai 2025

Dilynnwch ni ar Facebook:
Ysgol Gymraeg Trefynwy

# Y Bont

**Newyddion Ysgol**

Wel, mae'r hanner tymor yma wedi hedfan! Mae wedi bod yn gyfnod eithaf tawel o ran dathliadau i'r plant, ond yn un prysur i'r staff. Mae'r plant wedi bod yn brysur yn dysgu am drychfilod ac anifeiliaid bach hanner tymor yma gydag amrywiaeth o storïau fel sbardun.



Cynhaliwyd bore agored llwyddiannus ar ddechrau Mis Mai, gyda sawl darpar riant newydd yn ymweld â ni am wybodaeth.

Dathlon ni Diwrnod y Gwenyn gan wahodd yr awdur Carys Glyn i'r ysgol i wneud amrywiaeth o weithgareddau gyda'r plant.



Gyda chefnogaeth Mrs Peel, llwyddodd ein plant Bl 1 a 2 i ennill gwobr yng nghystadleuaeth Celf a Chrefft yr Urdd, ac maent wedi mynd trwyddo i'r rownd derfynol.

Fe fydd plant Blwyddyn 2 yn gweithredu 'cwisiau' (profion personol statudol) yn ystod Mis Mehefin.

Yn ystod misoedd yr haf, cofiwch roi eli haul hirhoedlog ar eich plentyn yn y bore a'i atgoffa i wisgo het.

**Gwaith Cymdeithas Rhieni a Chyfeillion Trefynwy (PTFA)**

Diolch yn fawr i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am barhau i gefnogi'r Ysgol. Maent wedi bod yn brysur iawn yn peintio ac addurno'r ardal tu allan dros wyliau'r Pasg a dechrau'r tymor. Mae'r canlyniadau yn anhygoel! Diolch o galon!

Fe fydd y Ffrindiau Trefynwy yn gwerthu ffrwyth a loli i'r plant fwynhau pob dydd Gwener dros yr hanner tymor nesaf. Taliadau trwy ddolen sumup.

## Dyddiadau Pwysig

**HMS**
2/6/2025
21/7/2024

Mae presenoldeb pob plentyn yn bwysig i ni er mwyn sicrhau'r cyfleoedd orau i bob disgybl. Gwerthfawrogwn eich cydweithrediad i gysylltu gwyliau teuluol gyda gwyliau ysgol (hyd yn oed os ydych yn colli cwpl o ddiwrnodau, mae'n well nag wythnos gyfan neu mwy) –Diolch

23-30/5/25 – Hanner Tymor
3/06/25 – Brwsio dannedd Cynllun i Wenu yn dechrau
20/6/25 – Dosbarth Derbyn – prawf golwg a twf
2/7/25 – Ffair Haf - ar ôl Ysgol
4/7/25 – Mabolgampau Ysgol @1:45
8/7/25 – Ymweliad i Ferm Parc Raglan
18/7/2025 – Diwedd Tymor gorffen am 1:45

Fe fyddwn yn cynnal Ffair Haf Bach ar ôl ysgol ar 2/7/2025 ar iard yr ysgol. Dewch I gefnogi ni a mwynhau bach o hwyl a sbri gyda'r plant.

Bydd y plant yn dychwelyd i'r ysgol ar ddydd Mawrth Mehefin 3ydd oherwydd y diwrnod hyfforddiant HMS gan staff ar 2 Mehefin. Cael hanner tymor hyfryd.